# YSGOL BRO CAEREINION

# Prosbectws Ysgol



# Cynnwys:


3. Dyddiadau Ysgol
4. Gair gan y Pennaeth
5. Gyda phwy i gysylltu
6. Y Corff Llywodraethol
7. Oriau Ysgol – Cyfnod Cynradd
8. Oriau Ysgol – Cyfnod Uwchradd
9. Prydau a Byrbrydau
10. Cwricwlwm i Gymru – Trosolwg
11. Cwricwlwm i Gymru – O ddosbarth derbyn hyd at flwyddyn 9
12. Cwricwlwm i Gymru – TGAU, Lefel-A, Trisgol ac Esgol
13. Cwricwlwm i Gymru – ACRh
14. Asesu a Gwaith Cartref
15. Anghenion Dysgu Ychwanegol
16. Chwaraeon, Datblygiad Corfforol ac Ymweliadau Addysgol
17. Gweithgareddau Allgyrsiol
18. Cyngor Ysgol a Phwyllgor Llais y Dysgwr
19. Gwisg Ysgol
20. Peidiwch â chymryd ein gair ni! Gwrandewch ar y dysgwyr...
21. Gwybodaeth Ychwanegol:
    - Trafnidiaeth
    - Cyfleoedd Cyfartal
    - Diogelu
    - Polisiau
    - Ymweld ag Ysgol Bro Caereinion
    - Derbyniadau
    - Cwynion
    - Dolenni Defnyddiol




# Manylion Ysgol:

Pennaeth: Mr Huw Lloyd Jones

Cyfeiriad: Ysgol Bro Caereinion
Neuadd Lane
Llanfair Caereinion
SY21 0HW

Rhif Ffôn: 01938 810888
Ebost: office@brocaereinion.powys.sch.uk
Facebook: @brocaereinion

Cadeirydd y Corff Llywodraethol: Mr Gareth Jones

Math o Ysgol: Ysgol ddynodedig dwyieithog i bob oed.

Nifer o ddysgwyr: 572

Cyfnod Cynradd: 121
Cyfnod Uwchradd: 451

## Gair gan y Pennaeth:



Croeso i Ysgol Bro Caereinion. Cymuned ysgol gynhwysol yw Ysgol Bro Caereinion sy'n caniatau i ddysgwyr ymgymryd â'u dysgu o 4 i 18 oed.

Mae'r ysgol yn ysgol ofalgar, glos, gydag ymdeimlad o deulu, lle mae pawb yn gwybod ac yn gofalu am ei gilydd. Mae perthynas dda iawn rhwng staff a dysgwyr.

Ein nod yw sicrhau cyrhaeddiad academaidd a chyfoethogiad personol pob dysgwyr mewn amgylchedd cefnogol a chynhwysol. Mae staff Bro Caereinion yn ymdrechu i ddarparu amgylchedd hapus a gofalgar lle mae meithrin perthnasoedd cryf wrth wraidd ein hethos a'n gwerthoedd.

Mae gan yr ysgol hunaniaeth Gymraeg gref iawn sy'n adlewyrchu'r ardal y mae'n ei gwasanaethu. Ein nod yw hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg, hanes a diwylliant trwy ein cwricwlwm sydd newydd ei ddatblygu. Mae addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ei gynnig yn y rhan fwyaf o'n pynciau ac ein nod yw i bob plentyn gyrraedd y lefel uchaf posibl o rugldder yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Yn ogystal â darparu profiad dysgu o ansawdd uchel, mae pob disgybl yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn ystod o weithgareddau diwylliannol, cerddorol a chwaraeon drwy gydol eu gyrfa yn yr ysgol.

Huw Lloyd Jones
Pennaeth

# Gyda phwy i Gysylltu:

Gellir cysylltu â phob aelod o staff drwy swyddfa'r ysgol a gellir cysylltu â nhw dros y ffôn neu drwy e-bost.

Pennaeth: Mr Huw Lloyd-Jones


Dirpwy Bennaeth: Mr Ed Baldwin

Penaethiaid Cynorthwyol: Miss Laura Jones
Mrs Rhian Mills
Mr Greg Jenkins (CADY)

Arweinyddion Cynnydd: Mrs Sioned Chapman Jones (Derbyn i flwyddyn 3)
Mrs Alison Evans (Blwyddyn 4 - Blwyddyn 6)
Mrs Fflur Gottschalk (Blwyddyn 7 - Blwyddyn 8)
Miss Mollie Corfield (Blwyddyn 9 - Blwyddyn 10)
Mr Sam Andrew (Blwyddyn 11 - Blwyddyn 13)

Cefnogaeth Bugeiliol: Mrs Caroline Evans (Blwyddyn 7 - Blwyddyn 8)
Mrs Manon Watkin (Blwyddyn 9 - Blwyddyn 11)
Mrs Nicky Lewis (Blwyddyn 12 - Blwyddyn 13)

Cadeirydd y Corff Llywodraethol: Mr Gareth Jones



# Y Corff Llywodraethol:

Cynrychiolir y sefydliadau canlynol ar Gorff Llywodraethu'r Ysgol:

- Y Cyngor Sir
- Rhieni
- Staff Addysgu
- Staff nad ydynt yn addysgu
- Cyngor Tref
- Aelodau cyfetholedig o'r gymuned leol.

Mae rôl y Llywodraethwyr wedi datblygu'n fawr yn y blynyddoedd diwethaf. Yn bennaf, maent yn gyfrifol am:

- Roi gweledigaeth, ethos a chyfeiriad strategol clir i'r ysgol;
- Ddwyn y pennaeth i gyfrif am berfformiad addysgol yr ysgol a'i dysgwyr;
- Oruchwylio perfformiad ariannol yr ysgol a sicrhau bod ei harian yn cael ei wario'n effeithiol.

Mae'r Corff Llywodraethol llawn yn cyfarfod o leiaf unwaith bob hanner tymor. Mae'r Corff Llywodraethol yn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol i Rieni. Dilynir hyn gan gyfarfod gyda rhieni (os bydd mwy na thri rhiant yn gofyn) i drafod yr adroddiad ac unrhyw fater arall yn ymwneud â dyletswyddau'r Llywodraethwyr i'r ysgol. Rydych chi fel rhiant yn ethol tri rhiant lywodraethwr am gyfnod o bedair blynedd. Byddwch yn cael gwybod pan fydd yr etholiad nesaf i fod.

Mae'r pennaeth, y staff a'r llywodraethwyr yn gweithio mewn partneriaeth agos a chyfartal i sicrhau bod yr addysg orau bosibl yn cael ei darparu i ddysgwyr Ysgol Bro Caereinion. Cyflawnir hyn trwy gyfarfodydd is-bwyllgorau rheolaidd, gweithgareddau monitro fel teithiau dysgu, gwrando ar ddysgwyr a chraffu ar lyfrau.

# Oriau Ysgol - Cyfnod Cynradd:

| | Cyfnod Sylfaen | Cyfnod Allweddol 2 |
|---|---|---|
| Cofrestru | 08:55 | 08:55 |
| Gwersi'n dechrau | 09:00 | 09:00 |
| Egwyl bore | 10:15 - 10:30 | 10:30 - 10:45 |
| Cinio | 12:00 - 13:00 | 12:00 - 13:00 |
| Gwersi prynhawn | 13:00 - 15.15 | 13:00 - 15.20 |
| Egwyl prynhawn | 14:15 - 14:30 | -------- |
| Diwedd ysgol | 15:15 | 15:20 |

Oriau Dysgu Cyfnod Sylfaen: 23 awr

Oriau Dysgu Cyfnod Allweddol Dau: 25 awr

Disgwylir i ddysgwyr gyrraedd yr ysgol yn brydlon. Os bydd dysgwr yn cyrraedd yr ysgol yn hwyr, ar ôl y cyfnod cofrestru, rhaid i'r rhiant lofnodi a nodi rheswm dros fod yn hwyr mewn llyfr dynodedig yn y swyddfa.

Dyddiadau Tymor Ysgol - gweler yr adran 'dolenni defnyddiol'.

# Oriau Ysgol - Cyfnod Uwchradd:

| | |
|---|---|
| Cofrestru | 08:50 |
| Gwers 1 | 09:10 |
| Gwers 2 | 10:00 |
| Egwyl Bore | 10:52 |
| Gwers 3 | 11:10 |
| Gwers 4 | 12:00 |
| Cinio | 12:52 |
| Gwers 5 | 13:48 |
| Gwers 6 | 14:38 |
| Diwedd Ysgol | 15:30 |

Oriau Ysgol Cyfnod Uwchradd: 25 awr

Disgwylir i ddysgwyr gyrraedd yr ysgol yn brydlon. Os bydd dysgwr yn cyrraedd yr ysgol yn hwyr, ar ôl y cyfnod cofrestru, bydd marc hwyr yn cael ei gynnwys ar y gofrestr. Mae'n hanfodol bod pob dysgwr sy'n hwyr yn llofnodi i mewn yn y brif swyddfa ar ôl cyrraedd yr ysgol.

# Prydau a Byrbrydau:

Clwb Brecwast (Clwb Cynnar)
Mae'r Clwb Brecwast ar agor bob dydd ar gyfer dysgwyr oedran cynradd o 07:45 tan 08:45. gweinir grawnfwydydd, tost yn ogystal â iogwrt a sudd i ddysgwyr. Y gost yw £1.50 y diwrnod. Darperir brecwast am ddim; fodd bynnag, codir tâl am ofal plant.

Clwb ar ôl Ysgol
Mae'r clwb ar ôl ysgol, sy'n cael ei redeg yn annibynnol ar y Campws Cynradd, ar agor i blant o 3.20p.m. - 5.30p.m. Y gost yw £6 y plentyn ac yna £5 y brawd neu chwaer. Darperir ystod eang o weithgareddau ar gyfer y plant a chânt fyrbryd iachus.
Cysylltwch â Miss Rowena Huxley ar HuxleyR1@brocaereinion.powys.sch.uk

Cinio Ysgol
Mae'r ysgol yn darparu prydau bwyd iach, maethlon. Mae dewis o brydau traddodiadol, tatws pob, byrbrydau poeth, brechdanau a saladau ar draws y ddau gampws. Y gost yw £2.35 y diwrnod ar y Campws Cynradd ac mae'n amrywiol ar y Campws Uwchradd. Telir yn electronig drwy wefan Parent Pay. Mae'r fwydlen ar gael o wefan Powys.

Efallai yr hoffech i'ch plentyn ddod â bocs bwyd. Rydym yn annog rhieni i ddarparu cinio iach a chytbwys i'w plant.

Byrbryd Amser Egwyl
Anogir dysgwyr i ddod â ffrwythau i'w bwyta amser egwyl. Mae byrbrydau poeth ac oer ar gael i'w prynu ar y Campws Uwchradd.

Llaeth
Darperir llaeth am ddim i ddysgwyr Blwyddyn Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 bob dydd.






# CWRICWLWM I GYMRU

## Cwricwlwm i Gymru:

Mae Ysgol Bro Caereinion yn y broses o ddatblygu y cwricwlwm newydd cyffrous i Gymru. Mae'r cwricwlwm newydd wedi ei hen sefydlu yn y cyfnod cynradd ac yn cael ei sefydlu ar hyn o bryd ym mlynyddoedd 7 ac 8. Mae pawb yn Ysgol Bro Caereinion yn gwybod bod y cwricwlwm yn esblygu ac yn datblygu'n gyson, ac mae ein Cwricwlwm newydd i Gymru yn caniatáu i ni wneud yn union hynny – stopio, gwerthuso'r hyn rydym wedi'i wneud, ac ystyried y ffordd orau o greu'r cwricwlwm mwyaf perthnasol, deniadol sy'n cael ei yrru gan gynnydd ar gyfer ein dysgwyr. Bwriad ein cwricwlwm yw darparu addysg o safon uchel, sy'n rhoi'r sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol i ddysgwyr gyflawni a ffynnu yn y Gymru fodern a'r byd ehangach sydd o'u blaenau. Mae ein gweledigaeth ar gyfer darparu rhagoriaeth academaidd, o fewn amgylchedd gefnogol a chynhwysol yn sail i bob penderfyniad cwricwlwm a wnawn. Pwrpas y cwricwlwm newydd, Cwricwlwm i Gymru, a gyflwynwyd yn 2022, yw cefnogi plant a phobl ifanc i fod yn:

- ddysgwyr uchelgeisiol, galluog, sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes
- gyfranwyr mentrus, creadigol, yn barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith
- ddinasyddion egwyddorol, gwybodus Cymru a'r byd
- unigolion iach, hyderus, sy'n barod i fyw bywydau boddhaus fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

Mae gan y cwricwlwm newydd chwe Maes Dysgu a Phrofiad (MDPh):

- Celfyddydau Mynegiannol
- Iechyd a Lles
- Dyniaethau (gan gynnwys AG a ddylai barhau i fod yn orfodol hyd at 16 oed)
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Mathemateg a Rhifedd
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Mae'n cynnwys cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd: Llythrennedd, Rhifedd a Chymhwysedd Digidol.

## Cyfnod Cynradd:

Mae'r Cwricwlwm newydd yng Nghymru wedi'i hen ynl ein Cyfnod Cynradd. Mae staff yn cynllunio yn thematig ar y cyd ar draws y 6 maes dysgu er mwyn codi dyheadau pob dysgwr. Rhoddir ystyriaeth i sut y bydd pob dysgwr yn cael ei gefnogi a gwireddu'r pedwar diben er mwyn symud ymlaen. Mae addysgu a dysgu da yn herio ein holl ddysgwyr trwy eu hannog i gydnabod pwysigrwydd ymdrechu'n barhaus i gyrraedd y disgwyliadau uchel tra'n hefyd bod o fewn eu cyrraedd. Rydym yn cydnabod bod pob dysgwr yn dod i'r ysgol ar lefelau datblygiad gwahanol a gyda gwahanol anghenion. Mae ein cwricwlwm yn darparu cyfleoedd a phrofiadau i ddatblygu'r cysyniadau, gwybodaeth a sgiliau allweddol er mwyn bod yn ddysgwyr yn rhai gydol oes.

## Blwyddyn 7 ac 8:

Addysgir pynciau ym Mlwyddyn 7 ac 8 yn unol â'r cwricwlwm newydd ac fe'u cyflwynir trwy ein Meysydd Dysgu a Phrofiad, gan ganiatáu mwy o gydweithio rhwng pynciau ac 'Adrannau' traddodiadol. Caiff y cynllunio ei wneud ar y cŷd, gan sicrhau bod themâu, sgiliau a phrofiadau trosfwaol yn cael eu plethu drwy'r cwricwlwm. Gwelir enghraifft o hyn yn ein symudiad tuag at gyflwyno ein cwricwlwm Dyniaethau, gan gyfuno, cryfhau, a chreu cwricwlwm troellog o'r sgiliau craidd a'r wybodaeth sydd eu hangen ar draws y maes, yn hytrach na'r hyn a fyddai wedi bod yn hanesyddol yn bynciau ar wahân, sef Daearyddiaeth, Hanes ac Addysg Grefyddol. Mae themâu cyffredin fel 'Cynefin' hefyd yn rhedeg trwy wahanol elfennau o'r Cwricwlwm i sicrhau Cwricwlwm eang, cytbwys a chydgysylltiedig i Gymru. I gael rhagor o wybodaeth am elfennau penodol o'r Cwricwlwm, cysylltwch â'r arweinydd MDaPh perthnasol. Addysgir y pynciau hyn mewn dosbarthiadau gallu cymysg ym mlwyddyn 7 gyda dysgwyr yn cael eu gosod mewn setiau ar gyfer gwersi Mathemateg, Cymraeg, Saesneg a Ffrangeg ym mlwyddyn 8.

## Blwyddyn 9:

Ym mlwyddyn 9, mae dysgwyr yn astudio'r pynciau canlynol: Cymraeg iaith gyntaf ac ail iaith, Saesneg, Mathemateg, Gwyddoniaeth, Dylunio a Thechnoleg, Technoleg Gwybodaeth, Celf, Daearyddiaeth, Hanes, Addysg Grefyddol, Ffrangeg, Cerddoriaeth, Addysg Gorfforol ac yn cael eu gosod mewn setiau ar gyfer Mathemateg, Cymraeg, Saesneg a Ffrangeg. Blwyddyn 9 hefyd yw'r flwyddyn y gwneir penderfyniadau ynglŷn â dewisiadau opsiynau ar gyfer Blwyddyn 10 ac 11. Rhoddir gwybodaeth i rieni a bydd yr ysgol yn cynhyrchu llawlyfr i rieni a dysgwyr yn manylu ar y cyrsiau a'r Llwybrau Dysgu 14-16.

## Blwyddyn 10 ac 11 (TGAU):

Ym mlynyddoedd 10 ac 11 mae pob dysgwr yn dilyn cwricwlwm craidd sef Cymraeg, Saesneg, Mathemateg, Gwyddoniaeth, Bagloriaeth Cymru, Gyrfaoedd / ABCh, Addysg Gorfforol. Eir â Chymraeg, Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth i lefel arholiad. Mae pob dysgwr yn unol â'r Llwybr Dysgu 14 – 19 yn dewis 3 phwnc arall o ystod gynhwysfawr o bynciau. Wrth astudio eu cyrsiau TGAU, bydd dysgwyr hefyd yn cael cymorth gydag adolygu, techneg arholiad ac ymdopi â straen arholiadau. Mae clybiau/sesiynau adolygu hefyd ar gael yn y cyfnod cyn arholiadau allanol.

## Blwyddyn 12 a 13 (UG a Lefel Uwch):

Mae Ysgol Bro Caereinion yn gallu darparu amrywiaeth o bynciau trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg ac rydym yn cydweithio'n agos gyda'n hysgolion cyfagos o dan faner TRISGOL. Anelwn at ddatblygu'r sgiliau allweddol, y sgiliau craidd a'r rhinweddau personol hynny a fydd yn hanfodol yn y dyfodol, megis cyfathrebu, rhifedd, sgiliau technoleg gwybodaeth, gweithio gydag eraill, hunan-wella, datrys problemau, hunanddisgyblaeth, trefniadaeth a hunan hyder. Ceir rhagor o wybodaeth ym mhrosbectws y 6ed dosbarth ac ar wefan Chweched Powys.

## Trisgol:

Mae ysgolion a cholegau Gogledd Powys yn gweithio mewn partneriaeth i gynnig yr ystod ehangaf posibl o bynciau UG a Lefel Uwch. Trefnir bysiau/tacsis i godi dysgwyr o'r ysgol a'u dychwelyd i'r ysgol mewn pryd ar gyfer eu bws adref. Mae Trisgol yn gyfle i rannu'r arbenigedd mewn ysgolion eraill. Mae cludiant rhwng ysgolion am ddim i bob dysgwr.

## E-sgol:

Ariennir E-sgol gan Lywodraeth Cymru i gynorthwyo darpariaeth chweched dosbarth yn bennaf mewn ardaloedd gwledig a darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Egwyddor graidd e-sgol yw sicrhau bod dysgwyr, waeth beth fo'u lleoliad, yn cael y cyfleoedd i astudio pynciau nad ydynt efallai ar gael iddynt eu hastudio yn eu hysgolion eu hunain. Cyflwynir y gwersi gan ddefnyddio dull dysgu cyfunol ac fe'u hysgogir gan Hwb. Defnyddir Microsoft Teams i hwyluso'r gwersi fel Amgylchedd Dysgu Rhithwir, a defnyddir Microsoft OneNote i greu nodiadau ac anodi cyflwyniadau. Rhoddir hyfforddiant i bawb cyn cychwyn gwersi ac ar adegau niferus yn ystod y flwyddyn. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan e-sgol.

# Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb:

Mae addysg cydberthynas a rhywioldeb (ACRh) yn ofyniad statudol yn fframwaith Cwricwlwm i Gymru ac mae'n orfodol i bob dysgwr 3 i 16 oed. Mae gofynion cyfreithiol i Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb fod yn briodol o ran datblygiad, gan gynnwys yr adnoddau y mae ysgolion yn eu defnyddio wrth weithredu ACRh.

Mae pynciau fel diogelwch ar-lein, caniatâd ac iechyd rhywiol i gyd wedi'u cynnwys yn y Côd, ond ar gamau datblygu priodol fel nad yw dysgwyr yn cael eu hamlygu i bethau nad ydynt yn briodol i'w hoedran a'u datblygiad.

Yn iau, er enghraifft, byddant yn cael eu haddysgu am drin ei gilydd gyda charedigrwydd ac empathi. Wrth i blant dyfu'n hŷn, byddant yn dod i ddeall pynciau fel diogelwch ar-lein, caniatâd ac iechyd rhywiol - a bydd pob un ohonynt yn cael eu trin mewn ffordd sensitif.

Bydd dysgu mewn ACRh hefyd yn cynnwys cydnabod, deall a siarad am bob math o wahaniaethu, trais, cam-drin ac esgeulustod a cheisio cymorth a chyngor ar ystod o faterion o ffynonellau dibynadwy.

Mae gofyniad cyfreithiol hefyd ar Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb i fod yn wrthrychol, yn feirniadol ac yn lluosog: sy'n golygu bod yn rhaid i ysgolion a lleoliadau ddarparu gwybodaeth ffeithiol ac ar gwestiynau am werthoedd, amrywiaeth o safbwyntiau ar bwnc penodol, a ddelir yn gyffredin mewn cymdeithas.

# Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cŷd:

Cynhelir addoli ar y cŷd fel ysgol gyfan, grŵp blwyddyn neu ddosbarth. Mae tarddiad Cristnogol i'r sesiynau hyn ond cyflwynir themâu amrywiol hefyd, gan gynnwys agweddau cymdeithasol ac agweddau moesol. Mae Ysgol Bro Caereinion yn ysgol anenwadol ac yn unol â'r Ddeddf, mae'n dysgu'r hyn a nodir gan y pwyllgor CYSAG lleol. Dysgir crefyddau a gwyliau eraill trwy gydol y flwyddyn e.e. Cristnogaeth, Hindŵaeth, Iddewiaeth, Sikhaeth, Bwdhaeth ac Islam. Mae ymweliadau gan sefydliadau crefyddol yn digwydd e.e. Tîm Effaith, eglwysi a chapeli. Mae gan unrhyw riant yr hawl i wahardd plentyn o'r sesiynau addoli ar y cŷd. Dylid trafod hyn gyda'r pennaeth.

# Asesu a Gwaith Cartref:

## Asesu:

Cyflwynir adroddiad ysgrifenedig blynyddol i rieni ar gynnydd eu plentyn. Asesir dysgwyr yn fewnol fel rhan o bolisi asesu'r ysgol. Mae'r rhain yn cynnwys y Profion Cenedlaethol a'r Profion CATs. Mae dysgwyr yn cael un adroddiad ysgrifenedig ac un noson rieni ynghyd ag adroddiadau cynnydd dysgwyr wedi'u gwasgaru yn ystod y flwyddyn academaidd. Bydd dysgwyr ym mlynyddoedd 10 – 13 yn cwblhau ffug arholiadau yn eu meysydd pwnc yn ystod y flwyddyn. Mae hyn er mwyn eu paratoi ar gyfer eu harholiadau TGAU a Safon Uwch allanol.

Mae Arholiadau TGAU yn dechrau ym mlwyddyn 10. Drwy gydol y flwyddyn, bydd dysgwyr yn sefyll arholiadau (sy'n cynnwys tasgau fel cyflwyniadau llafar a gwaith ymarferol) ac yn nhymor yr haf byddant yn sefyll arholiadau ffurfiol mewn llond llaw o bynciau. Bydd Blwyddyn 11 hefyd yn sefyll arholiadau trwy gydol y flwyddyn yn ogystal â therfynau amser gwaith cwrs. Byddant yn sefyll yr holl arholiadau sy'n weddill yn nhymor yr haf, gan ddechrau ym mis Mai.

Mae'r un peth yn wir am arholiadau UG a Safon Uwch. Bydd dysgwyr yn cwblhau arholiadau a gwaith cwrs amrywiol yn ystod y flwyddyn, a bydd eu perfformiad ynddynt yn cyfrannu at eu gradd derfynol yn eu pynciau. Bydd dysgwyr yn sefyll arholiadau allanol ysgrifenedig ffurfiol ar ddiwedd blwyddyn 12 a blwyddyn 13.

## Gwaith Cartref a Chymorth:

Mae Ysgol Bro Caereinion yn ysgol ddi-waith cartref hyd at flwyddyn 9. Bydd gwaith cartref ond yn cael ei osod i gyfoethogi dealltwriaeth y dysgwyr neu ar gyfer ymchwil ychwanegol bydd yn helpu i ddatblygu dealltwriaeth y dysgwyr. Anogir dysgwyr i ddarllen gartref gyda'u teuluoedd, ymarfer eu tablau amser ar Dablau Amser Rock Stars ac ymarfer sillafu. Weithiau gellir gosod prosiect / gwaith cartref yn gysylltiedig â thema. Bydd yr athrawon yn anfon cyfarwyddiadau clir i rieni i gefnogi o gartref.

## Anghenion Dysgu Ychwanegol:

Yn Ysgol Bro Caereinion rydym wedi ymrwymo i roi'r gefnogaeth angenrheidiol i ddysgwyr gyrraedd eu nodau. Mae'r Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY), Mr Greg Jenkins, yn gweithio'n agos gyda dysgwyr, staff, a rhieni i sicrhau bod yr ysgol yn bodloni anghenion dysgwyr. Mae ystod o ymyriaethau ar gael i ddisgyblion Ysgol Bro Caereinion gan gynnwys Llythrennedd, Rhifedd, ac ystod o gefnogaeth emosiynol. Rydym yn ymdrechu i ddarparu cymaint o ymyriaethau â phosibl drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

Yn Ysgol Bro Caereinion rydym yn gweithio gydag ystod eang o asiantaethau allanol i ddarparu'r gefnogaeth orau sydd ar gael i'n dysgwyr a chanolbwyntio ein gwaith ar Ymarfer Person-Ganolog i sicrhau ein bod yn cadw'r dysgwr a'u hanghenion ar flaen y gâd yn y penderfyniadau a wnawn i sicrhau ein bod yn rhoi'r cyfleoedd gorau iddyn nhw.

Fel rhan o bontio dysgwyr i Ysgol Bro Caereinion, rydym yn ymdrechu i gael perthynas waith agos gyda'n hysgolion bwydo i sicrhau bod gennym ddarlun cyflawn o'r dysgwr cyn iddynt gyrraedd Ysgol Bro Caereinion. I gefnogi hyn, lle mae gan ddysgwr Gynllun Datblygu Unigol (CDU) byddwn yn ymdrechu i fynychu cyfarfod adolygu yn yr ysgol gynradd yn ystod tymor yr haf blwyddyn 6.


## Asiantaethau Allanol:

Mae lles dysgwyr yn graidd i bopeth a wnawn yn Ysgol Bro Caereinion. O bryd i'w gilydd, efallai y bydd angen cymorth gan asiantaethau allanol ar ddysgwyr i feithrin a diogelu eu lles meddyliol ac emosiynol. Rydym yn parhau i gydweithio'n agos ag asiantaethau allanol amrywiol, ac mae'r canlynol ymhlith y rhai yr ydym yn gweithio gyda; Ardal 43, Gwasanaeth Ymyrraeth Ieuenctid, CAMHS In-reach, TLG, Mind, Game Change a CREDU. Mae gennym hefyd arbenigwr mewnol i gyflwyno gweithdai pryder i bob grŵp blwyddyn. Gellir cael cymorth i deuluoedd drwy'r Tîm o Amgylch y Teulu a Chymorth Cynnar.

# Chwaraeon a Datblygiad Corfforol:



Mae'r ysgol yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau chwaraeon ym mhob agwedd o Addysg Gorfforol a Chwaraeon ac rydym yn ffodus i allu cael mynediad i ystod eang o gyfleusterau chwaraeon. Mae gan ddysgwyr fynediad i gyfleusterau'r Ganolfan Hamdden, sydd wedi'i lleoli ar y campws uwchradd.



Gall y neuadd Chwaraeon gynnwys 3 chwrt badminton, un cwrt pêl-foli, cwrt pêl-rwyd, cwrt pêl-fasged ac ardal dan do pump bob ochr. Ger y brif neuadd mae ystafell ffitrwydd llawn offer a dau gwrt sboncen. Mae hyn yn ychwanegol at gyfleusterau awyr agored, sy'n cynnwys caeau pêl-droed, trac 200 metr a chae pob tywydd ar gyfer criced, tennis a hoci.Disgwylir i bob dysgwr gymryd rhan mewn Addysg Gorfforol a chyflwynir dwy wers yr wythnos. Mae'r cwricwlwm yn cynnwys iechyd a ffitrwydd, athletau, gymnasteg, dawns, hoci, rygbi, pêl-droed, pêl-rwyd, tennis, rownderi a thraws gwlad. Mae dysgwyr yn y Cyfnod Cynradd yn dysgu sut mae nofio yng Nghanolfan Hamdden y Flash yn Y Trallwng.

Mae chwaraeon cystadleuol hefyd yn bwysig iawn i ni fel ysgol. Cynhelir cystadlaethau rheolaidd yn yr ysgol, rhwng ysgolion, yn yr Urdd ac ar lefel Sirol a Chenedlaethol.



# Ymweliadau Addysgol:

Mae Ymweliadau Addysgol yn bwysig iawn i roi profiadau bywyd go iawn i ddysgwyr yn eu datblygiad. Mae Blwyddyn 3 a 4 yn cael y cyfle i aros yng Nghanolfan Red Ridge a bydd dysgwyr Blwyddyn 5 a 6 yn cael cyfle i fwynhau taith breswyl yng Nghanolfan yr Urdd Llangrannog yn nhymor yr Haf. Mae dysgwyr y Cyfnod Uwchradd yn cael cyfleoedd i fynychu teithiau addysg yn unol â'u hastudiaethau megis taith Bioleg a Daearyddiaeth blwyddyn 10 i Dwyni Tywod Ynys Las ac ymweliadau gan yr adran Ddrama i weld cynyrchiadau theatr. Pan drefnir teithiau, ymweliadau theatr a digwyddiadau eraill, gofynnwn am gyfraniad i gynorthwyo gyda'r costau.


# Gweithgareddau Allgyrsiol:

Ystyrir bod gweithgareddau allgyrsiol yn hanfodol ar gyfer datblygiad pob dysgwr. Rydym yn darparu ystod amrywiol o weithgareddau gyda'r nod o hybu hunan-barch, ehangu profiadau, meithrin hyder, a chynnig cyfleoedd ar gyfer cyflawniadau ystyrlon.

Mae'r clybiau allgyrsiol sydd ar gael yn Ysgol Bro Caereinion yn cynnwys:


Top Trumps


Band Roc a Phop



Clwb Celf


Clwb Gwyddbwyll


Côr


Bibliomaniacs


Jazz Band


Clwb Coginio


Clwb Gywddoniaeth

Clybiau Chwaraeon:



- Pêl-Droed
- Hoci
- Rounderi
- Pêl-Rhwyd
- Criced

Mae nifer fawr o'n dysgwyr yn cystadlu'n flynyddol yn Eisteddfod yr Urdd ac mae clybiau'r Urdd yn cychwyn ar ôl gwyliau'r Nadolig. Yn ogystal, mae digwyddiadau lleol ac elusennol amrywiol yn digwydd trwy gydol y flwyddyn, megis Plygain, gwasanaeth y Cynhaeaf, Plant Mewn Angen, a Dydd Miwsig Cymru. Rhoddir cyfle i ddysgwyr o Flwyddyn 2 ymlaen chwarae ffidil, chwythbrennau, pres, piano, drymiau, iwcalili neu gitarau gyda thiwtoriaid sy'n ymweld â'r ysgol yn wythnosol. Anfonir llythyrau gyda chostau ac argaeledd ar ddechrau'r flwyddyn academaidd.

Mae pob hanner tymor yn gorffen gyda Dydd Gwener Gofal sy'n galluogi dysgwyr i ddathlu eu cyflawniadau dros yr hanner tymor diwethaf, paratoi ar gyfer yr egwyl o'u blaenau a rhoi cyfle i bawb gymryd rhan mewn gweithgareddau ymwybyddiaeth ofalgar a lles.

# Cyngor Ysgol a Phwyllgor Llais y Dysgwyr:

Pob blwyddyn, mae dysgwyr yn cael y cyfle i fod yn rhan o gyngor ysgol/pwyllgor llais y dysgwr. Mae'r pwyllgorau hyn yn rhoi llais i ddysgwyr fynegi eu barn, rhannu eu syniadau a chymryd cyfrifoldeb am fywyd yr ysgol. Mae'r pwyllgorau'n cyfarfod o leiaf unwaith bob hanner tymor ac yn cadw cofnodion. Etholir cynrychiolwyr o flynyddoedd 1 - 13 yn flynyddol.

Y Cyngor Ysgol yw'r senedd yn yr ysgol. Bydd y swyddogion yn gweithredu am dymor o flwyddyn. Nod y cyngor yw rhoi barn a llais i'r dysgwyr ar sut i symud yr ysgol yn ei blaen. Mae llais y dysgwr yn ganolog i bob agwedd ar yr ysgol.

Pwyllgor Eco - Mae'r Pwyllgor Eco yn gyfrifol am wella datblygiad cynaliadwy o fewn yr ysgol a'r amgylchedd. Mae cynrychiolwyr dysgwyr yn sicrhau bod cyfathrebu i ac o'r Eco-Bwyllgor i weddill yr ysgol.

Pwyllgor Ysgolion Iach - Mae'r pwyllgor Ysgolion Iach yn annog byw bywyd iach. Mae 4 thema allweddol, sef: Bwyta'n Iach, Gweithgarwch Corfforol, Addysg Bersonol, Gymdeithasol ac Iechyd (ABChI) ac Iechyd a Lles Emosiynol.

Dewiniaid Digidol - Mae'r Dewiniaid Digidol yn cefnogi datblygiad dysgu digidol a diogelwch ar-lein yn yr ysgol.

Llysgenhadon Chwaraeon - Mae'r Llysgenhadon Chwaraeon yn annog cadw'n heini ac iach ac yn trefnu mentrau yn yr ysgol fel 'milltir y dydd'.

Llysgenhadon Gwych - Mae'r Llysgenhadon Gwych yn gyfrifol am addysgu eraill am hawliau plant a'r cyfrifoldebau a ddaw gyda'r hawliau hynny.

Criw Cymraeg - Mae'r Criw Cymraeg yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymreig yn yr ysgol ac yn y gymuned leol ac yn trefnu digwyddiadau yn ystod y flwyddyn.

# Gwisg Ysgol:

Gobeithir y bydd pob dysgwr yn gwisgo gwisg ysgol gan ei fod yn:

- hybu ymdeimlad o falchder yn yr ysgol;
- creu ymdeimlad o gymuned a pherthyn i'r ysgol;
- meithrin adnabyddiaeth o gymuned, ethos a gwerthoedd yr ysgol;
- ymarferol ac yn unigryw;
- wwneud i ddysgwyr deimlo'n gyfartal â'i gilydd o ran ymddangosiad;
- cael ei ystyried yn rhesymol.

Eitemau Gwisg Ysgol:

- crys chwys ysgol glas tywyll gyda logo
- crys polo glas brenhinol gyda logo
- trowsus neu sgert ddu
- siorts du
- Cyfnod Cynradd - gwisg gingham glas a gwyn
  - Tymor yr Haf yn unig
- esgidiau du/brown tywyll i gyd




Eitemau Addysg Gorfforol

- Crys T glas brenhinol a du gyda logo
- Siorts du
- Sanau du

Sicrhewch eich bod yn ysgrifennu enw eich plentyn yn glir ar bob dilledyn. Caniateir i ddysgwyr wisgo un fodrwy ac oriawr i'r ysgol. Dylai colur fod yn fach iawn ac yn ddisylw ac ni chaniateir farnais ewinedd.

Gellir archebu'r wisg ysgol o:

Constructiv Clothing - http://www.constructiv.co.uk

Mid Wales Embroidery - https://www.midwalesembroidery.com

Welshpool Printing Group - https://www.wpg-group.com

# Peidiwch â chredu ein gair ni...

Rwy'n hoffi Dydd Gwener Gofal oherwydd gallwn wisgo dillad ein hunain a gwneud gweithgareddau lles fel chwaraeon a chodi arian at elusen. Dyma'r ysgol orau achos mae'r athrawon yn parchu'r dysgwyr ac mae gennym ni lais.

Dysgwr Cyfnod Cynradd

Wedi bod ar y cyngor ysgol ers blwyddyn 7, mae gwylio'r ysgol yn datblygu wedi bod yn anrhydedd. A nawr, ym mlwyddyn 11 dwi'n teimlo fy mod yn nabod yr ysgol tu fewn allan. I mi, mae cyngor ysgol yn ymwneud â chael llais i wella ein dysgu. Dyna pam ei fod yn arbennig i mi.

Aelod Cyngor Ysgol, Blwyddyn 11

Dw i'n hoffi chwarae pêl-droed ar y Red Gra amser cinio ac rydyn ni'n chwarae rygbi hefyd. Fel arfer byddwn yn defnyddio'r goliau bach ar gyfer gemau a chwarae gyda/yn erbyn grwpiau blwyddyn eraill.

Dysgwr Blwyddyn 9

Mae TRISGOL yn ein galluogi i gymryd pynciau sydd ddim ar gael yn YBC. Rydym wedi cyfarfod ffrindiau newydd yn yr ysgolion newydd yn ogystal ag athrawon newydd. Mae'n cynnig amgylchedd gwahanol ac yn rhoi teimlad i ni o wahanol ddulliau addysgu.

Barn dysgwr blwyddyn 12 ar TRISGOL

I like the fun activities we have, like going to the forest to build dens, art and taking part in the Eisteddfod.

Dysgwr Cyfnod Cynradd

Yn fy marn i, mae bwyd ysgol yn flasus iawn! Mae'r prif bryd yn rhoi digon o fwyd i chi ac mae mwy na digon o ddewis.

Dysgwr Blwyddyn 8

Rwyf wedi setlo'n dda iawn. Mae pawb wedi bod yn neis iawn ac yn garedig. Mae Bro Caereinion yn ysgol dda iawn a dwi wedi cael diwrnodau da a drwg, ond ar y cyfan mae wedi bod yn anhygoel. Rwy'n gyffrous i weld beth sy'n digwydd nesaf!

Dysgwr Blwyddyn 7

Mae Ysgol Bro Caereinion yn ysgol hapus a chyfeillgar i fod ynddi. Mae'r athrawon i gyd yn gyfeillgar iawn ac yn hawdd i fynd atynt. Mae cymorth ar gael bob amser. Fel Prif Ferch, rwyf wedi bod yn gweithredu syniadau a gyflwynwyd gan y cyngor ysgol i wella'r ysgol ar gyfer y rhai a fydd yn dod i fyny.

Prif Ferch, Blwyddyn 13

# Gwybodaeth Ychwanegol:

## Trafnidiaeth:

Mae cludiant am ddim ar gael i rieni sy'n dymuno i'w plant deithio ar fws i'w hysgol agosaf. Mae Polisi Cludiant Powys i'w weld ar Wefan Powys. Am ragor o fanylion, cysylltwch â'r pennaeth.

## Cyfleoedd Cyfartal:

Credwn y dylai pawb – pob aelod o staff, llywodraethwyr, rhieni a dysgwyr o ba bynnag gefndir, hil, rhyw, rhywioldeb, oedran neu allu, dderbyn cyfle cyfartal ym mhob agwedd o fywyd yr ysgol. Anogwn bob unigolyn i barchu eraill o fewn a thu allan i gymuned yr ysgol. Ni fydd yr ysgol yn goddef unrhyw fath o iaith nac ymddygiad hiliol a bydd yn cael ei herio a'i adrodd yn unol â chanllawiau Powys. Sicrhawn fod cydraddoldeb yn rhan annatod o'r holl gynllunio a gwneud penderfyniadau ar draws holl feysydd yr ysgol. Mae gan yr ysgol bolisi Cyfle Cyfartal sydd ar gael i'w ddarllen ar ein gwefan.

Mae cynllun presennol y safle a'r adeilad yn heriol i ddysgwyr a rhieni ag anableddau. Gwneir trefniadau arbennig rhwng yr ysgol a'r cartref pan fydd dysgwr ag anableddau neu Anghenion Dysgu Ychwanegol yn dechrau yn yr ysgol. Mae'r ysgol yn sensitif i anghenion dysgwyr a rhieni ag anableddau ac yn gwneud pob ymdrech i'w cynnwys ym mhob agwedd o fywyd a gwaith yr ysgol. Mae cynllun hygyrchedd ar gael gan yr ysgol.

## Diogelu:

Mae holl staff yr ysgol yn gyfrifol am ddiogelu ac amddiffyn y dysgwyr sy'n mynychu Ysgol Bro Caereinion. Os oes pryderon am esgeulustod neu gam-drin corfforol, emosiynol neu rywiol, yna mae gan y staff, yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019, ddyletswydd i ddweud wrth y person dynodedig sydd â chyfrifoldeb am ddiogelu plant yn yr ysgol. Gall y person dynodedig ymgynghori â chydweithwyr proffesiynol yn ogystal ag asiantaethau perthnasol megis Gwasanaethau Cymdeithasol. Yn dilyn y trafodaethau hyn, efallai y bydd yn rhaid i'r person dynodedig gyfeirio'r plentyn yn swyddogol i'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol, yn unol â chanllawiau a phrotocol yr awdurdod. Yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n penderfynu a oes angen gweithredu ai peidio.

Oherwydd natur yr honiadau, ni fydd bob amser yn briodol i drafod materion gyda'r rhieni cyn cyfeirio'r plentyn. Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Heddlu sy'n gyfrifol am ymchwilio i honiadau.

- Yr Uwch-berson Dynodedig ar gyfer Amddiffyn Plant yn yr ysgol hon yw:
  Mr Greg Jenkins, Cydlynydd ADY
- Y Dirprwy Uwch Berson Dynodedig ar gyfer Amddiffyn Plant yn yr ysgol hon yw:
  Miss Laura Jones, Pennaeth Cynorthwyol
  Mrs Rhian Mills, Pennaeth Cynorthwyol
  Mrs Nicola Lewis, Athrawes Gyflenwi
- Y Llywodraethwr Dynodedig ar gyfer Amddiffyn Plant yn yr ysgol hon yw:
  Dr Margaret Jones

Byddwn yn cyhoeddi lluniau dysgwyr ar ein cyfryngau cymdeithasol a gwefan at wahanol ddibenion. Mae gennym ffurflenni pwrpasol ar gyfer cael caniatâd rhiant/gofalwr cyn gwneud hyn. Ni chaniateir i unrhyw riant roi llun o ddysgwyr ysgol ar unrhyw safle rhwydweithio cymdeithasol, ac eithrio eu plant eu hunain.

## Polisiau:

Mae copïau o bolisïau'r ysgol ar gael yn yr ysgol a thrwy wefan yr ysgol.

Polisi Codi Tâl

Gofynnir i rieni am daliadau gwirfoddol i dalu costau ymweliadau addysgol a theithiau ysgol, cludiant theatr neu weithgareddau chwaraeon. Os ydych yn cael trafferth talu am unrhyw ymweliad, cysylltwch â'r pennaeth.

Polisi Cwynion

Os yw rhiant yn anfodlon ag agwedd addysgol benodol, dilynir y polisi cwynion. Yn gyntaf, cysylltwch â'r pennaeth i drafod y gŵyn. Bydd y pennaeth yn gwneud pob ymdrech i ateb y gŵyn yn foddhaol. Os nad ydych yn fodlon, rhaid i chi gyflwyno'r gŵyn yn ysgrifenedig i'r pennaeth. (Os oes gennych gŵyn am y pennaeth, rhaid i chi ysgrifennu llythyr at gadeirydd y corff llywodraethu.) Os ydych dal yn anfodlon rhaid i chi ysgrifennu drwy gyfeiriad yr ysgol at gadeirydd y corff llywodraethu gan nodi eich rhesymau dros ofyn i bwyllgor cwynion y corff llywodraethu ystyried eich cwyn. Mae copi llawn o'r polisi cwynion ar wefan yr ysgol.

## Ymweld ag Ysgol Bro Caereinion:

Os yw eich plentyn yn ymuno â ni am y tro cyntaf, dymunwn groeso cynnes i chi fel rhieni ac edrychwn ymlaen at berthynas hapus a llwyddiannus dros y blynyddoedd i ddod.

Gwahoddir rhieni i'r ysgol i gwrdd â'r Pennaeth ac edrych o gwmpas.

Fel rhieni, mae gwahoddiad cynnes i chi weithio gyda ni yn natblygiad eich plentyn. Ein nod yw cael perthynas dda gyda chi oherwydd credwn fod addysg wir yn bartneriaeth rhwng yr ysgol a'r cartref.

Os byddai eich plentyn yn elwa o ymweliadau ychwanegol ag Ysgol Bro Caereinion (yn ogystal â'r hyn a gynigir yn ystod y cyfnod pontio), cysylltwch â ni gan fod hyn yn rhywbeth y byddwn yn fwy na pharod i'w hwyluso.

## Derbyniadau:

Mae'r ysgol yn derbyn dysgwyr i'r ysgol yn unol â Pholisi Cyngor Sir Powys. Derbynnir dysgwyr i'r ysgol yn llawn amser yn y mis Medi ar ôl eu pen-blwydd yn bedair oed (os yw'r rhieni'n dymuno). Rhaid gwneud cais cynnar am le i'ch plentyn yn yr ysgol.

Os ydych am drosglwyddo eich plentyn i Ysgol Bro Caereinion, neu os yw eich plentyn ym Mlwyddyn 6 yn trosglwyddo i'r campws uwchradd, rhaid llenwi ffurflen gais a'i hanfon i'r sir. Os yw eich plentyn yn cael ei dderbyn fel 'trosglwyddiad yn ystod y flwyddyn' mae ffurflen gais ar wahân ar gael o wefan Derbyniadau Powys.

Estynnir croeso cynnes i bob darpar ddysgwr a hoffai ymweld â'r ysgol cyn cwblhau cais.

## Cwynion:

Os yw rhiant yn anfodlon ag agwedd addysgol benodol, dilynir y polisi cwynion. Yn gyntaf, cysylltwch â'r pennaeth i drafod y gŵyn. Bydd y pennaeth yn gwneud pob ymdrech i ateb y gŵyn yn foddhaol.

Os yn anfodlon, rhaid cyflwyno'r gŵyn yn ysgrifenedig i'r pennaeth. (Os oes gennych gŵyn am y pennaeth, yna rhaid ysgrifennu llythyr at gadeirydd y corff llywodraethu.) Os ydych dal yn anfodlon rhaid i chi ysgrifennu drwy gyfeiriad yr ysgol at gadeirydd y corff llywodraethu gan nodi eich rhesymau gan ofyn i bwyllgor cwynion y corff llywodraethu ystyried eich cwyn. Mae copi llawn o'r polisi cwynion ar wefan yr ysgol.

## Dolenni Defnyddiol:

Gwefan Ysgol - https://www.brocaereinion.powys.sch.uk/

Gyrfaoedd Cymru - https://careerswales.gov.wales/

Derbyniadau Powys - https://en.powys.gov.uk/article/1158/Applying-for-a-School-Place

Chweched Powys - https://powys6.cymru/

Dyddiadau Tymor Ysgol - https://en.powys.gov.uk/article/1166/School-Term-Dates

Polisiau a Chynlluniau Pontio - https://www.brocaereinion.powys.sch.uk/policies

Ffrindiau'r Ysgol - https://www.facebook.com/p/Ffrindiau-Ysgol-Bro-Caereinion-Friends-100064365472652/

Facebook Ysgol Bro Caereinion - https://www.facebook.com/ysgolbrocaereinion/

YSGOL BRO
CAEREINION

Mae'r holl wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir ar adeg ei chyhoeddi.